

Cofion

Parhawn i gofio am y rhai hynny yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. Cofiwn hefyd y rhai sydd heb fod cystal eu hiechyd a gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen. Dymunwn yn dda i Mrs Kitty Parry (Llanefydd) sy'n gobeithio symud i gartref Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur yn y dyddiau nesaf yn dilyn rhai wythnosau yn yr ysbty. Hyderwn y bydd yn setlo yno'n fuan iawn, ac yn elwa o'r gofod sydd wedi bod mor gyfarwydd i lawer o'n teuluoedd dros y blynyddoedd.

Apêl Ethiopia

Diolch o galon i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at yr apêl. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi eich amlen i drysorydd eich eglwys neu i Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF **erbyn diwedd Chwefror**, os gwelwch yn dda, fel y medrwn anfon yr arian ymlaen fel un cyfraniad gan Eglwys Bro Aled. (Mae amlenni cyfrannu ar gael gan flaenoriaid eich eglwys os nad ydych wedi derbyn un yn barod.) Gwnewch unrhyw sic yn daladwy i **"EGLWYSI BRO ALED"**, os gwelwch yn dda. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Darlith Dyrchafael ar Daith?

Gan ein bod eleni yn dathlu 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, mae'n fwriad gennym ninnau ym Mro Aled i nodi'r achlysur arbennig hwn. Cyn gwneud trefniadau pendant, hoffem wybod **pw y fyddai â diddordeb** petai ein Darlith Dyrchafael eleni yn mynd ar daith i Sir Gaerfyrddin, gan ymweld â Phantycelyn a llefydd eraill o bwys ym mywyd William Williams. Gallem drefnu hefyd i gael ein darlith flynyddol rhywle yn yr ardal, ac aros dros nos (yng Ngholeg Trefeca o bosib?) cyn troi am adre. Mae'n debyg mai yn ystod mis Mai y byddai'r daith yn cael ei chynnal, ond gallwn benderfynu ar ddyddiad pendant wedi cael gwybod pwy sydd â diddordeb. Wnewch chi adael i Mair wybod **cyn diwedd mis Chwefror** os oes gennych ddiddordeb, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael dechrau gwneud trefniadau naill ai i fynd ar daith, neu i drefnu darlith ym Mro Aled fel arfer? Diolch yn fawr.

I ddod

- **ARFOGI:** Mawrth 10fed – 12fed. Penwythnos yng Ngholeg y Bala i annog ac arfogi myfyrwyr ac oedolion ifanc o bob rhan o Gymru. Cysylltwch â'r Coleg i archebu lle: 01678 520565 / colegybala@ebcpw.org.uk.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Mawr, Dinbych nos Fercher, Mawrth 15fed (sylwch ar y noson): Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** nos lau, Mawrth 30ain yng Nghapel Llanefydd.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26^{ain} Chwefror 2017

Darlleniad y Dydd

Actau 9:19-22

(BCND tud.139 / BCN tud.127)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Tybed pa mor aml ydym ni'n rhyfeddu at wahanol bethau neu ddigwyddiadau yn ystod ein bywyd? Er bod yr ansoddair 'rhyfeddol' neu *amazing* yn Saesneg yn gallu cael ei or-ddefnyddio hyd at syrffed ar y cyfryngau, mae'n siŵr fod y gallu i ryfeddu yn tueddu i leihau wrth i ni brifio o fod yn blant i fod yn oedolion. Serch hynny nid rhywbeth i'w ddiystyru fel ymateb plentynnaidd yw rhyfeddod, yn enwedig felly i'r Cristion. Oherwydd wrth i ni ddarllen trwy'r Testament Newydd daw hi'n amlwg fod rhyfeddu yn ymateb cyffredin i'r rhai a ddaeth wyneb yn wyneb â'r Arglwydd Iesu. Roeddynt yn rhyfeddu at ei allu, ei ddysgeidiaeth, ac at waith Duw trwyddo (Marc 5:20; Luc 9:43; Ioan 7:15). Ac yn ein darlleniad ar y cyd heddiw gwelwn estyniad o'r rhyfeddu hwn at allu Crist, ond y tro yma mae'r rhyfeddu'n digwydd trwy'r newid mewn person arall - Saul o Darsus. Mae'r rhai sy'n gwrandao ar Saul yn rhyfeddu o glywed beth yn union yr oedd yn ei ddweud am Iesu o Nasareth. Nid gwrthwynebu a difrïo Iesu a'i ddilynwyr ydoedd, er mai dyma'r oedd yn enwog amdano. Yn hytrach, mae Saul yn mynd i mewn i synagogau gan gyhoeddi a phrofi o'r Hen Destament fod Iesu yn Feseia ac yn Fab Duw. Gallwn ddeall yn iawn pam yr oedd pobl yn rhyfeddu wrth weld y fath drawsnewidiad mewn person. Tydi newid o botsiar i gipar yn ddim mewn cymhariaeth!

Beth mae hyn oll yn ei ddysgu i ni? Fod Saul wedi cael profiad personol o ddod i adnabod ac ildio i'r Arglwydd Iesu Grist, a'i fod yn sgil hynny wedi treulio amser gyda'r disgyblion (Actau 9:19). Dyma ddwy elfen allweddol i Gristnogaeth Feiblaidd iach – perthynas bersonol o ffydd yng Nghrist ac ymwneud clos gyda chyd-Gristnogion wrth addoli'r Arglwydd. O ganolbwyntio ar un o'r agweddau hyn yn unig gan anwybyddu'r llall daw gwendidau amlwg i fywyd ysbrydol unrhyw un ohonom yn bur sydyn. Un ai byddwn yn or-ddibynnol ar ffydd pobl eraill i'n cynnal neu byddwn mor unigolyddol nes y cawn gryn drafferth i aeddfedu ac i wasanaethu eraill. Wrth ddod at ein gilydd i foli Duw heddiw, llawenhawn am Waredwr personol a theulu'r ffydd. Diolchwn hefyd bod achubiaeth Saul yn rhoi'r fath obaith i bechaduriaid ym mhob oes, fel y dywedodd Paul ei hun yn 1 Timotheus 1:15-16 (Beibl.net):

'Mae beth sy'n cael ei ddweud mor wir, a dylai pawb ei gredu: Daeth y Meseia Iesu i'r byd i achub pechaduriaid – a fi ydy'r gwaetha ohonyn nhw. Ond mae Duw wedi maddau i mi, y pechadur gwaetha, er mwyn i bawb weld amynedd di-ben-draw y Meseia Iesu! Dw i'n esiamp berffaith o'r math o bobl fyddai'n dod i gredu ynddo ac yn derbyn bywyd tragwyddol.'

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 28^{ain} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Mercher – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 2^{il} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog ar ôl yr ysgol.
- Sadwrn – 4^{ydd} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 1^{af} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Chwefror 26^{ain}**, os gwelwch yn dda.
- Iau – 2^{il} ➤ Bydd Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn y Ffestri am 7.30.
- Gwener – 3^{ydd} ➤ Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.00 gydag adloniant gan Dafydd a Cadi fydd yn rhannu hanes eu taith i Batagonia ac yn rhoi ambell gân. Enwau i Carys (870646) neu Dylan (870286) erbyn dydd Llun, Chwefror 27ain, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Yng Nghapel Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol am 2.00, gyda phaned i ddilyn.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Iau – 2^{il} ➤ Cymdeithas Llanefydd – Swper Gŵyl Ddewi yng Nghapel Llanefydd am 7.00 ac adloniant i ddilyn gan Beca Williams a'i ffrindiau o Langernyw. Enwau i Rhian Ivy House neu Manon Pierce **erbyn dydd Sul, Chwefror 26ain**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Cronici 29:10-13 (BCND tud.393 / BCN tud.359)